Hwb Llawfeddygol Ysbyty Llandochau Surgical Hub @Llandough

GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro Cardiff and Vale University Health Board

# Gwybodaeth am ryddhau cleifion ar ôl archwiliad o dan anesthetig a biopsïau

## Ôl-ofal:

- Efallai y bydd gorchudd neu tampon rhefrol bach (Spongostan) yn cael ei osod yn safle eich clwyf – os na chaiff hwn ei dynnu cyn eich rhyddhau, bydd eich nyrs yn eich cynghori ar beth i'w wneud ag ef.
- Efallai y byddwch yn cael carthyddion i fynd adref gyda chi; mae angen y rhain i osgoi rhwymedd.
- Byddwch yn cael llythyr yn rhoi canlyniadau eich biopsïau yn yr wythnosau nesaf.
    - Os nad ydych wedi clywed dim ar ôl 6 wythnos, cysylltwch ag ysgrifennydd y colon a'r rhefr ar gyfer eich llawfeddyg yn Ysbyty Athrofaol Cymru, drwy'r switsfwrdd – 02920 747747.

## Pethau i'w hosgoi:

- **Mynd yn rhwym** – gellir atal hyn trwy gynnwys digon o fwyd garw yn eich deiet ac yfed digon o hylifau.
- **Paratoadau sy'n cynnwys asid salicylig (Aspirin)**, gan y gallai gynyddu eich risg o waedu.
- **Enemas neu dawddgyffuriau** – oni bai eu bod wedi'u rhagnodi'n benodol.
- **Gor-yfed alcohol** am o leiaf 2 wythnos.

## Symptomau i gadw llygad amdanynt:

Os byddwch chi'n profi unrhyw un o'r canlynol, yng nghyd-destun llawdriniaeth ddiweddar, cysylltwch â'r Hwb Llawfeddygol neu'ch Meddyg Teulu:

- Tymheredd uchel
- Yr anws yn chwyddo
- Haint/rhedlif annormal o safleoedd y clwyfau
- Poen yn gwaethygu

## Cysylltwch â 111 neu ewch i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys os:

- Byddwch yn cael unrhyw anawsterau wrth basio wrin neu agor eich coluddion
- Byddwch chi'n pasio llawer iawn o waed

## Gwybodaeth ychwanegol:

https://www.nhs.uk/conditions/anal-cancer/tests-and-next-steps/

**Rhifau cyswllt allweddol**

Os oes gennych unrhyw bryderon gallwch gysylltu â:

Hwb Llawfeddygol (7am-7pm Dydd Llun-Dydd Gwener) – **02921 826510 neu 02921 826348**

Gofal Brys Llawfeddygol yr Un Diwrnod (sSDEC) yn YAC: drwy'r switsfwrdd – **02920 747747**

**Eich Meddyg Teulu**

**111** ar gyfer gwasanaethau meddyg teulu y tu allan i oriau neu'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys

Fersiwn 1.1 Ebrill 2026